PAUL EGAN BA, MCIPD SIARTREDIG, F. INST LM, FIPSM

Yn dilyn gyrfa llywodraeth leol lwyddiannus, cychwynnodd Paul yrfa gyda'r Gwasanaeth Prawf yn 1981 a gweithiodd mewn sawl rôl, gan gynnwys Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Cymorth) a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Busnes. Yn ystod y cyfnod hyd at ei ymddeoliad cynnar ym mis Mawrth 2008, roedd yn Brif Swyddog Prawf Gweithredol ar gyfer Ardal Prawf De Cymru yn y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2003. Yn ystod y cyfnod gweithredol hwn, gwasanaethodd Paul yn aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a Fforwm Prif Swyddogion a Chadeiryddion Byrddau Cymru.

Mae Paul wedi graddio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus (enillodd Wobr y Coleg i'r Myfyriwr Rhan Amser Gorau mewn Astudiaethau Busnes), mae'n aelod siartredig o'r Sefydliad Personél a Datblygu, yn Gymrawd y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac yn Gymrawd y Sefydliad Rheolaeth yn y Sector Cyhoeddus. Mae ganddo brofiad helaeth ar draws holl agweddau rheoli adnoddau dynol a chynllunio strategol a gafodd trwy fod yn aelod o Fwrdd Strategol Adnoddau Dynol Cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Grŵp Datblygu Busnes Cenedlaethol,;gan wasanaethu'n ls-Gadeirydd Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder (Grŵp Rhanbarthol Cymru); a thrwy gymryd rhan mewn nifer o grwpiau cyfiawnder troseddol rhanbarthol a chenedlaethol gwahanol ym meysydd personél a hyfforddiant a datblygu. Yn ei flwyddyn olaf cyn ymddeol, chwaraeodd ran flaenllaw yn cynorthwyo Bwrdd Gwasanaeth Prawf De Cymru i ddod yn un o'r chwe Bwrdd Ymddiriedolaeth Wave cyntaf yn Lloegr a Chymru.

Ers ymddeol yn gynnar, mae Paul wedi gweithio'n ymgynghorydd llawrydd ym maes Adnoddau Dynol, bu'n gyfrifol am yr adran Adnoddau Dynol yng Ngrŵp Tai Seren a gweithiodd yn Glerc y Gorfforaeth yng Ngholeg Glan Hafren a gwasanaethodd yn aelod o Fwrdd Cyflofaeth a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru am 3.5 mlynedd.

Mae ei wybodaeth yn cynnwys pob agwedd ar waith Adnoddau Dynol a chyfraith cyflogaeth, llywodraethiant corfforaethol, y defnydd o fodelau rhagoriaeth busnes, rheolaeth ariannol a chynllunio a rheolaeth sefydliadol. Bu'n weithgar ym maes gweinyddiaeth cynghorau lleol am flynyddoedd lawer, a bu'n Glerc i Gyngor Cymuned Llandochau ers dros 30 mlynedd, Ymddiriedolydd ac Ysgrifennydd Cwmni Canolfan Adferiad Alcohol Brynawel, Cyfarwyddwr Accende Limited, Ysgrifennydd Cwmni Pracademe Limited, ac yn Ymddiriedolydd Ymddiriedolaeth Neuadd Goffa a Theatr Y Barri.